Anghenion cefnogi Teuluoedd sy'n Mabwysiadu yng Nghymru

Awduron

Ann Bell - Rheolwr Datblygu, Cymru . Adoption UK

Marja Kempenaar – Cadeirydd Grŵp Ymgynghorol Cymru Adoption UK

adoption uk

CYNNWYS

Crynodeb gweithredol 3

Cyd-destun..... 5

Cyflwyniad 5

Cefnogi plant agored i niwed a chael parhauster yng Nghymru 5

Deddfwriaeth ac arweiniad diweddar ar fabwysiadu.. 6

Tueddiadau Mabwysiadu..... 6

Adoption UK 6

Tystiolaeth..... 7

Astudiaeth a gyhoeddwyd..... 7

Gwneud synnwyr o gefnogaeth mabwysiadu..... 8

Rôl ASSA 8

Asesu 8

Addysg 9

Cefnogaeth i Deuluoedd..... 11

Anghenion iechyd meddwl..... 12

CAMHS 12

Ymyrraeth therapiwtig annibynnol..... 14

Casgliadau 15

Cyfeiriadau 16

Geirfa 16

Crynodeb gweithredol

Mae bod yn rhiant yn dipyn o dasg , mae bod yn rhiant sy'n mabwysiadu yn fwy o dasg fyth. Cyfartaledd oedran plant sy'n cael eu mabwysiadu yng Nghymru ar hyn o bryd yw tair blwydd a deg mis a bydd mwyafrif y plant sy'n cael eu mabwysiadu wedi cael profiad o ryw fath o esgeulustod neu gamdriniaeth a achosodd iddynt gael eu rhoi yn y system gofal cyhoeddus yn y lle cyntaf.

Efallai na fydd rhieni sy'n mabwysiadu wedi cael llawer o brofiad blaenorol o fod yn rhieni a bydd rhaid iddyn nhw neidio i mewn i'r pen dwfn drwy ddod yn rhieni llawn amser ar un neu ragor o blant. Nid babanod sy'n cysgu llawer, ond plant bach bywiog neu blant hŷn fydd efallai erioed wedi cael profiad o rianta da ac sydd heb fawr o ffydd fod bywyd teuluol yn sefyllfa barhaol.

Mae hi'n anorfod fod yr unedau teuluol newydd hyn yn frau ar y dechrau ac y bydd angen cefnogaeth arnynt. Bydd angen i'r rhieni ddysgu sut i garu a magu plentyn (neu blant) sydd wedi dioddef poen emosiynol a gwrthodiad, a bydd rhaid i'r plant ddysgu i ymddiried mewn oedolion i fod yn ddibynadwy, yn rhoi magwraeth ac yn amddiffynnol.

Mae deddfwriaeth ac arweiniad ar gefnogaeth mabwysiadu wedi cynyddu dros y ddegawd ddiwethaf ac yn awr mae'n dod yn rhan o arfer sefydledig ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae hi'n glir o'r canfyddiadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, er bod gan deuluoedd sy'n mabwysiadu anghenion neilltuol parthed gwasanaethau addysgol a therapiwtig, nid yw'r rhain ar gael yn gyson ac mae angen gwneud llawer i wella hygyrchedd, gwybodaeth, prosesau ac adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r teuluoedd newydd a brau hyn.

Mae Adoption UK yn pryderu am nifer y lleoliadau mabwysiadu sy'n chwalu ar draws y DU. Amcangyfrifwyd fod un o bob pum lleoliad mabwysiadu yng Nghymru a Lloegr yn chwalu cyn i orchymyn mabwysiadu gael ei wneud (Ivaldi 1999) gyda'r plant yn mynd yn ôl i'r system ofal. Mae'n anorfod y bydd y ffigur hwn yn uwch wrth ystyried plentyndod cyfan mabwysiadu (Rushton a Dance 2004, Selwyn 2006). Mae casglu'r wybodaeth am aflonyddu neu chwaliadau unigol yng Nghymru, ei hadolygu ac yna dysgu yn ei sgil yn gamau hanfodol tuag at wella canlyniadau mabwysiadu. Mae nifer o argymhellion eraill ar gyfer gwella mynediad i gefnogaeth, ac ansawdd y gefnogaeth honno, ar gyfer teuluoedd sy'n mabwysiadu yn cael eu trafod yng nghorff yr adroddiad.

Crynodeb o'r argymhellion

Monitro aflonyddwch

ARGYMHELLIAD 1 – Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag Asiantaethau Mabwysiadu yng Nghymru i olrhain a chofnodi'r cyfraddau aflonyddwch a chwalu teuluoedd ar gyfer plant sy'n cael eu rhoi i'w mabwysiadu o'r system gofal, gan ddefnyddio hwn fel dangosydd allweddol i ganlyniadau mabwysiadu.

Asesu

ARGYMHELLIAD 2 – Dylai teuluoedd sy'n mabwysiadu gael gwybod am eu hawl barhaus i gael asesiad o anghenion cefnogi pryd bynnag y teimlant y byddai hynny o gymorth. Dylid rhoi'r wybodaeth hon yn glir yn ystod y cwrs paratoi a dylid eu hatgoffa ohoni pan fydd teuluoedd yn cysylltu â'r adran ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud.

ARGYMHELLIAD 3 – Dylid datblygu protocolau lleol ar gyfer asesu teuluoedd sy'n mabwysiadu yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd rhieni sy'n mabwysiadu, yn y rhan fwyaf o achosion, yn bartner cyfartal wrth benderfynu pa gefnogaeth sy'n angenrheidiol a sut y caiff y gefnogaeth honno ei chyflwyno.

ARGYMHELLIAD 4 – Dylid darparu hyfforddiant llawn i bob gweithiwr proffesiynol [iechyd a gwasanaethau cymdeithasol] yn amlygu ymchwil a gwybodaeth gyfredol ynghylch trin trawma ac esgeulustod cynnar yn ogystal ag effaith anhwylderau ymlyniad ar ddatblygiad ac ymddygiad plant.

Addysg

ARGYMHELLIAD 5 – Dylai cyllid gael ei wneud ar gael i ddatblygu llyfryn i rieni sy'n mabwysiadu i roi i staff ysgolion yng Nghymru yn amlygu anghenion penodol plant sydd wedi eu mabwysiadu. Mae llyfrynnau o'r fath wedi cael eu cynhyrchu yn Lloegr ac mae angen am lyfryn penodol Gymreig sy'n cwmpasu system addysgiadol Cymru a'r iaith Gymraeg.

ARGYMHELLIAD 6 – Dylid ymgorffori hyfforddiant ar anhwylderau ymlyniad ac effaith trawma cynnar ar blant o fewn y system ysgolion gyda chymwysterau cychwynnol athrawon, yn ogystal â bod yn rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon, cynghorwyr ysgol a staff sy'n gweithio mewn ysgolion.

ARGYMHELLIAD 7 – Dylai'r Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ym mhob awdurdod lleol, a'r person dynodedig ym mhob ysgol hefyd dderbyn cylch gwaith ar gyfer plant sydd wedi eu mabwysiadu. Dylid rhoi hyfforddiant ar faterion ymlyniad a thrawma cynnar i bobl yn y rolau hyn. Byddai hyn yn rhoi un pwynt cyswllt i rieni sy'n mabwysiadu ym mhob ysgol.

ARGYMHELLIAD 8 – Dylai arolygon ysgolion gynnwys ystyried y ddarpariaeth sy'n cael ei wneud ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi eu mabwysiadu mewn ysgolion.

CAMHS

ARGYMHELLIAD 9 – Dylai plant sydd wedi eu mabwysiadu gael yr un mynediad i CAHMS â phlant sy'n derbyn gofal gan fod eu hanghenion yn gysylltiedig â'i gilydd.

ARGYMHELLIAD 10 – Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trefnu cynhadledd i ddod â'r holl weithwyr proffesiynol at ei gilydd sy'n gweithio o fewn gwaith therapiwtig perthynol i ddarparu cefnogaeth ar barhauster [staff CAMHS a Gweithwyr Cymdeithasol o dimoedd maethu a mabwysiadu]. Nod y gynhadledd fyddai codi ymwybyddiaeth am batrymau anghenion yn ogystal ag am anghenion penodol y boblogaeth pobl ifanc sy'n derbyn gofal ac wedi eu mabwysiadu, i amlygu ymchwil berthnasol a diweddar o'u hanghenion therapiwtig a'u triniaethau effeithiol er mwyn datblygu gweithdrefnau yng Nghymru i wella ymatebion cefnogi mabwysiadu aml-asiantaeth.

ARGYMHELLIAD 11 – Dylid datblygu prosiect arbenigol yng Nghymru, yn debyg i Family Futures yn Lloegr, fyddai'n dwyn ynghyd arbenigedd CAMHS, therapyddion annibynnol, gweithwyr cymdeithasol ac addysgwyr i ddarparu gwasanaeth arbenigol i blant â phroblemau difrifol yn codi o ymlyniad gwael a thrawma ac esgeulustod cynnar.

ARGYMHELLIAD 12 – Dylid datblygu adnoddau a gwasanaethau cefnogi gyda'r disgwyliad y bydd rhai plant sydd wedi'u mabwysiadu a'u teuluoedd angen cefnogaeth a therapi gydol oes o'r lleoliad hyd nes eu bod yn oedolion.

Cyd-destun

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y materion allweddol sy'n ymwneud â chymorth mabwysiadu. Mae'n ffocysu'n benodol ar gymorth ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud gan y llys. Mae'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn yn adeiladu ar ddau arolwg gafodd eu cynnal yn ddiweddar yng Nghymru ac yn eu cysylltu â phrofiadau helaeth mabwysiadu aelodau Adoption UK, y brif elusen gefnogi rhiant i riant.

Cafodd y ddau arolwg eu cynnal dros y 12 mis diwethaf. Roedd yr arolwg cyntaf yn gofyn i fabwysiadwyr am eu barn ynghylch hygyrchu gwasanaethau cymorth mabwysiadu, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau addysgol a therapiwtig drwy'r broses asesu. Roedd yr ail arolwg yn coladu barn Cynghorwyr Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu [ASSA] sy'n gweithio yng Nghymru.

Bwriad yr adroddiad yw hysbysu agenda gweithredol a pholisi darpariaeth cymorth mabwysiadu yng Nghymru a hefyd i ddarparu gwybodaeth i'r rhai sydd angen troi at ddarpariaeth cymorth mabwysiadu. Mae'r ymatebion i'r arolygon a'r profiadau parhaus sy'n dod drwy linellau cymorth a gwefan Adoption UK yn ei gwneud hi'n glir fod angen gwneud llawer i wella hygyrchedd, gwybodaeth, prosesau ac adnoddau sydd ar gael i'r rhai sy'n cael eu herio a'u blino gan eu profiad o fabwysiadu.

Cefnogi plant agored i niwed a chael parhauster yng Nghymru

Mae plant agored i niwed yn un o feysydd pryder allweddol Llywodraeth y Cynulliad. Mae Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol 2008 sy'n ymwneud â Phlant Agored i Niwed a Thlodi Plant wedi trosglwyddo pwerau deddfwriaethol newydd a chyfrifoldebau eang i Weinidogion Cymru i ddiogelu, hyrwyddo a sicrhau lles bob plentyn a pherson ifanc, yn cynnwys y rhai all fod yn agored i newid - yn enwedig y rhai sydd mewn angen: plant sy'n derbyn gofal, a rhai sy'n gadael gofal.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio datblygu agwedd arbennig sy'n ymateb i amgylchiadau Cymreig ac i anghenion plant yng Nghymru. Y plant hyn sy'n dod yn rhai sy'n derbyn gofal, ac nad ydynt wedyn yn gallu mynd yn ôl at eu teuluoedd biolegol, yw rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae nifer cynyddol o'r plant hyn yn cael eu mabwysiadu. Y plant yma a'r teuluoedd sy'n eu mabwysiadu yw ffocws yr adroddiad hwn.

Deddfwriaeth ac arweiniad diweddar ar fabwysiadu

Ar ddiwedd 2005 fe wynebodd y system fabwysiadu'r newid mwyaf mewn 30 mlynedd pan ddisodlodd Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 [Deddf 2002] Ddeddf Mabwysiadu 1976. Mae hi wedi cymryd amser i weithredu'n llawn Ddeddf 2002 a'r canllawiau a'r fframwaith arolygu sy'n cyd-fynd â hi. Yn ddiweddar mae Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynnal Ymchwiliad i Leoli plant mewn gofal ac mae ar fin cyhoeddi ei adroddiad. Ar ben hyn, yn ddiweddar sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grŵp Gorchwyl Mabwysiadu a Maethu gyda chylch gwaith ar gyfer datblygu polisi maethu a mabwysiadu yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio hysbysu'r drafodaeth a dylanwadu ar bolisi mewn perthynas â phrosesau a darpariaeth cymorth mabwysiadu.

Tueddiadau Mabwysiadu

Mae nifer y plant sy'n cael eu cymryd i dderbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru wedi bod yn cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.

Plant	Derbyn gofal	Wedi'u mabwysiadu
Mawrth 2008	3000	212
Mawrth 2009	4704	256

Mae'r cynnydd hwn o 20% yn arwyddocaol o'i gysylltu â'r goblygiadau am y galwadau am adnoddau gyda'r disgwyl y bydd nifer y plant sy'n derbyn gofal gynyddu yn y blynyddoedd nesaf. Yr hyn sydd hefyd yn eglur yw bod y galw hwn yn ymwneud nid yn unig â'r cynnydd mewn nifer ond hefyd, yn ddichonol, gydag ansawdd, gan fod cymhlethdod yr anghenion sydd gan y plant hynny sy'n cael eu mabwysiadu ar ôl dod drwy'r system gofal cyhoeddus yn cynyddu o ganlyniad i drawmâu arwyddocaol ac i deuluoedd yn chwalu.

Adoption UK

Cychwynnwyd Adoption UK ym 1971, yn sefydliad dan arweiniad mabwysiadwyr, ac mae'n unigryw o ran ei hanes o bron 40 mlynedd o brofiad personol o fywyd teuluoedd sy'n mabwysiadu. Mae Adoption UK wedi bod yn gyfryngol wrth gymryd agwedd yn seiliedig ar dystiolaeth tuag at ganfod 'beth sy'n gweithio' wrth gefnogi lleoliadau mabwysiadu. Mae Adoption UK yn pryderu am nifer y lleoliadau mabwysiadu sy'n chwalu ar draws y DU. Yng Nghymru (fel mewn rhannau eraill o'r DU) ymddengys nad oes coladu cyfundrefnol cenedlaethol o nifer y chwaliadau nac unrhyw ddysgu o ganfyddiadau adolygiadau o chwaliadau. Amcangyfrifwyd fod un o bob pum lleoliad mabwysiadu yng Nghymru a Lloegr yn chwalu cyn i orchymyn mabwysiadu gael ei wneud (Ivaldi 1999) gyda'r plant yn mynd yn ôl i'r system ofal. Mae'n anorfod y bydd y ffigur hwn yn uwch wrth ystyried plentyndod cyfan mabwysiadu (Rushton a Dance 2004, Selwyn 2006).

Mae Adoption UK yn cydnabod er bod mabwysiadu'n arwain at ganlyniad cadarnhaol i'r rhan fwyaf o blant sy'n cael eu mabwysiadu, nad yw'n ffon hud. Bydd gan lawer o blant sy'n cael eu mabwysiadu greithiau yn dilyn eu profiadau cynnar a fydd yn para am weddill eu bywyd ac mae'n bosib y bydd angen cymorth parhaus ar deuluoedd sy'n mabwysiadu hyd nes y bydd y plentyn yn dod yn oedolyn, neu hyd yn oed wedi hynny.

Cred Adoption UK ei bod hi'n hanfodol bod rhieni sy'n mabwysiadu'n cael eu cynnwys fel partneriaid llawn yn yr asesu ar gyfer cymorth mabwysiadu ac yn ei ddarpariaeth. Mae hefyd yn credu bod angen i gysyniad 'ail-rianta' neu 'rianta therapiwtig' ar blant sy'n cael eu mabwysiadu gael ei dderbyn a'i danategu gan ddeddfwriaeth ac arweiniad sy'n cyfeirio gwaith Asiantaethau Mabwysiadu ac Asiantaethau Cymorth.

Tystiolaeth

Yr arolwg cyntaf: Tua diwedd 2009, cynhaliodd Adoption UK, yn gweithio yng Nghymru, arolwg ymysg rhieni sy'n mabwysiadu i edrych ar effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth a'r canllawiau presennol o ran galluogi teuluoedd sy'n mabwysiadu i gael gafael ar y gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnynt. Cafwyd ymatebion gan chwe deg wyth o deuluoedd ar draws Cymru, ac roedd hyn yn cynnwys cant un deg saith o blant wedi'u mabwysiadu.

Yr ail arolwg: Yn gynnar yn 2010, cynhaliodd Grŵp Ymgynghorwyr Cymorth Mabwysiadu Cymru Gyfan (ASSA) arolwg ymysg asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru i edrych ar yr amrywiaeth o wasanaethau cymorth sy'n cael eu darparu ac ar beth yr oedd yr ASSAau yn eu hystyried fel y prif heriau i roi cymorth i deuluoedd sy'n mabwysiadu. Ymatebodd un deg chwech o'r ddau ddeg dau Asiantaeth Mabwysiadu Awdurdod Lleol i'r arolwg yn ogystal ag un o'r ddwy asiantaeth mabwysiadu annibynnol mwyaf sy'n gweithredu yng Nghymru.

Cafodd data ei goladu hefyd o'r llinell gymorth sy'n cael ei rhedeg gan Adoption UK.

Astudiaeth a gyhoeddwyd

Bydd pob plentyn sydd wedi'i fabwysiadu wedi cael profiad o ryw fath o golled neu drawma drwy gael ei wahanu oddi wrth ei deulu biolegol. Bydd llawer o blant sydd wedi'u mabwysiadu wedi profi colled a thrawma pellach drwy eu profiadau cynnar o gamdriniaeth neu esgeulustod o fewn eu teulu biolegol, all fod wedi ei gymhlethu gan nifer o symudiadau o fewn y system gofal cyhoeddus (Randall 2009).

Mae ymchwil i ddatblygiad niwrobiolegol babanod yn awgrymu y gall profiadau negyddol cyn ac ar ôl geni gael effaith parhaol ar yr ymennydd ifanc sy'n datblygu (Glaser 2000, De Bellis 2005). Bydd y trawma cynnar hwn yn arwain at anawsterau sylweddol yn emosiynol, yn ymddygiadol, yn addysgiadol neu'n ddatblygiadol. Bydd yr anawsterau hyn yn eu tro'n effeithio ar allu'r plant i lunio ymlyniadau cadarn gyda'u rhieni newydd; yr ymlyniadau hanfodol y mae eu hangen er mwyn gwella ac yna i gymryd mantais lawn o'u teulu newydd am weddill eu bywyd (Howe 2006).

Mae'r canlyniadau i blant sy'n cael eu rhoi mewn lleoliadau mabwysiadu ar y cyfan yn well nag i'r rhai sy'n aros mewn gofal cyhoeddus am gyfnod hir. Fodd bynnag, amcangyfrifwyd hefyd bod un o bob pum achos o fabwysiadu'n chwalu cyn i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud (Ivaldi 2000) ac mae'r ffigur hwn llawer yn uwch o ystyried nifer y teuluoedd sy'n mabwysiadu sy'n chwalu cyn i'r plentyn droi'n oedolyn; o gymryd yr achosion o aflonyddwch a chwalu teuluoedd gyda'i gilydd, amcangyfrifir o astudiaethau yn Lloegr fod hyn yn tua un o bob tri (Selwyn 2006 a Rushton a Dance 2004). Ni chafwyd llawer o ymchwilio systematig i achosion teuluoedd yn chwalu ac nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei choladu'n genedlaethol yng Nghymru.

ARGYMHELLIAD 1 - Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag Asiantaethau Mabwysiadu yng Nghymru i olrhain a chofnodi'r cyfraddau aflonyddwch a chwalu teuluoedd ar gyfer plant sy'n cael eu rhoi i'w mabwysiadu o'r system gofal, gan ddefnyddio hwn fel dangosydd allweddol i ganlyniadau mabwysiadu.

Gwneud synnwyr o gefnogaeth mabwysiadu

Mae cymorth mabwysiadu yn fater cymhleth. Mae'r berthynas rhwng y gofyniad cyfreithiol i ddarparu cymorth mabwysiadu a phreifatrwydd y rhieni sy'n mabwysiadu yn achosi heriau gweithredol ac o ran polisi. Edrychir ar rai o'r rhain isod. Yn gysylltiedig â'r adrannau isod mae argymhellion sydd wedi eu bwriadu i hysbysu datblygiadau polisi a gweithredol Cymru.

Rôl ASSA

Mae rôl yr Ymgynghorydd Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu yn un statudol dan Ddeddf 2002. Mae galw ar bob awdurdod lleol i benodi o leiaf un person i gyflawni nifer o swyddogaethau. Un o'r swyddogaethau hyn yw rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth i'r awdurdod lleol parthed:

- anghenion asesu ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu;
- ffurfio cynlluniau cymorth mabwysiadu;
- cysylltu gydag ASSAau awdurdodau lleol eraill lle mae plant yn cael eu lleoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol.

Felly mae rôl yr ASSA yn cynnwys swyddogaeth strategol i sicrhau fod cymorth ar ôl mabwysiadau ar gael a rôl weithredol wrth nodi anghenion cefnogaeth teuluoedd unigol sy'n mabwysiadu.

Canfu arolwg ASSA Cymru fod llawer o Ymgynghorwyr yn teimlo wedi eu hynysu yn eu rôl ac yn teimlo nad oes ymrwymiad effeithiol aml-asiantaeth parthed darparu cymorth mabwysiadu. Canfu'r arolwg hefyd nad oes gan bron hanner yr Asiantaethau Mabwysiadu yng Nghymru gyllideb benodol ar gyfer cymorth mabwysiadu.

Asesu

Cafodd y lefel ychwanegol o angen gan blant sy'n cael eu mabwysiadu ei chydnabod yn y Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu i Gymru a Lloegr 2005 sy'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gefnogi anghenion teuluoedd sy'n mabwysiadu lle maen nhw'n bwriadu lleoli plant. Mae gan deuluoedd sy'n mabwysiadu hawl gyfreithlon i gael asesiadau pellach unrhyw bryd ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud nes bod y person gafodd ei fabwysiadu'n cyrraedd 18 mlwydd oed. Yn 2005 cynhyrchodd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r DfES ar y cyd Gyfarwyddyd Ymarfer ar asesu anghenion cefnogi teuluoedd sy'n mabwysiadu. Mae'r asesiad yn seiliedig ar y Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd ac mae'n argymell bod y plentyn mabwysiedig yn cael ei ystyried yn aelod o'r teulu sy'n mabwysiadu yn ogystal ag ystyried yr etifeddiaeth o'u teuluoedd biolegol.

Mae'r canfyddiadau o'r arolwg ymysg rhieni sy'n mabwysiadu a gweithwyr proffesiynol cymorth mabwysiadu'n dangos fod yr hawl i ofyn am asesiad yn profi i fod yn declyn deddfwriaethol defnyddiol y gall teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ei ddefnyddio i archwilio anghenion cymorth y teulu. Mae tair problem ddifrifol yn codi: yn gyntaf, mae diffyg gwybodaeth am yr hawl hon ymhlith rhieni sy'n mabwysiadu. Roedd llai na hanner y rhieni sy'n mabwysiadu a gymerodd ran yn yr arolwg yn gwybod am yr hawl hon. Yn ail, nid oedd gweithwyr proffesiynol yn glir ynghylch pwy ddylai fod yn gwneud yr asesiadau ac roedd pryder na fyddai teuluoedd o anghenraid yn cwrdd â'r trothwy cyffredinol ar gyfer derbyn gwasanaethau ar ôl iddynt gael eu hasesu gan y timoedd derbyn plant a theuluoedd. Yn drydydd, roedd hi hefyd yn amlwg o'r ymatebion i'r arolwg fod gan awdurdodau lleol lefelau cymysg o arbenigedd mewn perthynas â mabwysiadu a'r materion sy'n cael eu cyflwyno gan blant sydd wedi eu trawmateiddio.

ARGYMHELLIAD 2 - Y dylai teuluoedd sy'n mabwysiadu gael gwybod am eu hawl barhaus i gael asesiad o anghenion cefnogi pryd bynnag y teimlant y byddai hynny o gymorth. Dylid rhoi'r wybodaeth hon yn glir yn ystod y cwrs paratoi a dylid eu hatgoffa ohoni pan fydd teuluoedd yn cysylltu â'r adran ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud.

ARGYMHELLIAD 3 – Y dylid datblygu protocolau lleol ar gyfer asesu teuluoedd sy'n mabwysiadu yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd rhieni sy'n mabwysiadu, yn y rhan fwyaf o achosion, yn bartner cyfartal wrth benderfynu pa gefnogaeth sy'n angenrheidiol a sut y caiff y gefnogaeth honno ei chyflwyno.

ARGYMHELLIAD 4 - y dylid darparu hyfforddiant llawn i bob gweithiwr proffesiynol [iechyd a gwasanaethau cymdeithasol] yn amlygu ymchwil a gwybodaeth gyfredol ynghylch trin trawma ac esgeulustod cynnar yn ogystal ag effaith anhwylderau ymlyniad ar ddatblygiad ac ymddygiad plant.

Addysg

O'r 108 plentyn oedran ysgol yr adroddwyd arnynt yn yr arolwg o deuluoedd sy'n mabwysiadu, roedd gan 12% ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac roedd 6% arall yn y broses o gael datganiad. Mae'r lefel uwch na'r cyfartaledd o anghenion addysgol arbennig yn unol ag ymchwil sy'n awgrymu fod plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi'u mabwysiadu yn gwneud yn arwyddocaol waeth ar fesurau o ganlyniadau addysgol o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (Biehal 2009). Dywedodd y mwyafrif o'r rhieni sy'n mabwysiadu a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi dweud wrth staff yr ysgol fod eu plentyn wedi'i fabwysiadu a'u bod wedi cael rhai trafodaethau ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ynghylch goblygiadau hyn i'w plentyn. Roedd ymateb ysgolion yn amrywio, o'r dibrisiol:

> *"Doedden nhw ddim yn dangos fawr o ddiddordeb a gwrthodon nhw bob cynnig o ddogfennau neu daflen, a dywedodd athro'r dosbarth derbyn 'O, mae'n well gen i gymryd y plentyn fel ag y mae; dydw i ddim isio cael unrhyw wybodaeth allai newid fy marn.'"*

i'r adeiladol;

> *"Mae'r ysgol wedi bod yn gefnogol dros ben ac wedi gwneud i ni a'n plant deimlo'n gysurus iawn. Rydym mewn trafodaethau da a pharhaus gyda'r pennaeth, y Cydlynydd AAA a'r athrawon dosbarth ynghylch anghenion ac ymddygiad ein plant ... Rydw i wedi rhoi cyhoeddiadau ar fabwysiadu a materion ymlyniad FAD ac ati i bob athro dosbarth ar gychwyn bob blwyddyn. Rydyn ni bob amser yn gofyn am gyfarfod arbennig gyda'r athro dosbarth newydd."*

Dywedodd mwyafrif helaeth y rhieni (90%) y byddai wedi bod o gymorth i gael rhestr llyfrau i roi i staff yr ysgol i esbonio pam mae angen iddynt fod yn sensitif i anghenion arbennig plant mabwysiedig yn eu dosbarthiadau.

ARGYMHELLIAD 5 – Y dylai cyllid gael ei wneud ar gael i Adoption UK ddatblygu llyfryn i rieni sy'n mabwysiadu i roi i staff ysgolion yng Nghymru yn amlygu anghenion penodol plant sydd wedi eu mabwysiadu. Mae llyfrynnau o'r fath wedi cael eu cynhyrchu yn Lloegr ac mae angen am lyfryn benodol Gymreig sy'n cwmpasu system addysgiadol Cymru a'r iaith Gymraeg.

ARGYMHELLIAD 6 – Y dylid ymgorffori hyfforddiant ar anhwylderau ymlyniad ac effaith trawma cynnar ar blant o fewn y system ysgolion gyda chymwysterau cychwynnol athrawon, yn ogystal â bod yn rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus athrawon, cynghorwyr ysgol a staff sy'n gweithio mewn ysgolion.

Ymysg y themâu eraill yn ymatebion yr arolwg roedd:

- lle mae gan staff yr ysgol beth profiad personol o fabwysiadu, mae'r ymateb yn fwy sensitif a phriodol.

- Gyda phlant sydd wedi profi trawma cynnar ceir camgymhariad rhwng eu hoedran cronolegol a'u cam datblygiadol ac emosiynol. Golyga hyn eu bod yn profi heriau wrth reoli rhannau cymdeithasol o'u bywyd ysgol. Bydd ysgolion yn aml yn adrodd am anawsterau yn rheoli'r plant hyn yn ystod amser egwyl a chinio pan gânt eu gadael i chwarae fel y mynnant. Mewn amgylchedd mor ddistrwythur efallai bydd angen cymorth mwy unigol arnyn nhw i'w helpu i gymryd rhan yn briodol yn y gweithgareddau ac i ymgysylltu â'r plant o'u cwmpas.

"Mae fy merch yn profi anawsterau gyda gwneud ffrindiau, gan ddweud ei bod ar ei phen ei hun yn aml amser chwarae (er ei bod hi'n ferch fach gymdeithasol iawn ar y cyfan). Does ganddi hi ddim ffrind gorau na grŵp o ffrindiau agos, ac mae hi'n gyson yn dod adre' o'r ysgol yn dweud fod pobl wedi bod yn annheg, yn gas ac yn dweud wrthi am fynd oddi wrthyn nhw, i stopio siarad ac ati."

- Parodrwydd ar ran staff yr ysgol i weithio gyda rhieni i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref. Gall hyn gynnwys rhyw fath o siart ymddygiad sy'n ffocysu ar faterion tebyg yn y cartref a'r ysgol, cyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd a rhybuddion ymlaen llaw am brosiectau ysgol all fod yn anodd i blant sydd â theuluoedd biolegol a rhai mabwysiedig.

"Mae gen i berthynas waith gref ac effeithiol gyda Phennaeth yr Ysgol Gynradd ac athro dosbarth fy mab yn ei ysgol uwchradd. Er mwyn darparu cysondeb ac i gynnal beth weithiodd yn dda yn yr ysgol gynradd, maen nhw wedi cynnig - mewn cyfarfod gyda fi yn ddiweddar - fy mod yn parhau gyda siart wythnosol rhwng yr ysgol a'r cartref a bod yr athro'n edrych arno bob dydd Gwener gan roi sylwadau a chanmol cyflawniadau. Rydym yn cefnogi ac yn gweithio gyda'n gilydd ar ganlyniadau a gwobrau."

- parodrwydd ar ran yr ysgol i ddarparu rhywun yn yr ysgol i fod yn 'ffigur ymlyniad' ar gyfer y plentyn sydd â datblygiad ymlyniad bregus. Mae hyn yn gyffredin mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn, ond nid i blant hŷn.

ARGYMHELLIAD 7 - Y dylai'r Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ym mhob awdurdod lleol, a'r person dynodedig ym mhob ysgol hefyd dderbyn cylch gwaith ar gyfer plant sydd wedi eu mabwysiadu. Dylid rhoi hyfforddiant ar faterion ymlyniad a thrawma cynnar i bobl yn y rolau hyn. Byddai hyn yn rhoi un pwynt cyswllt i rieni sy'n mabwysiadu ym mhob ysgol.

- Ymwybyddiaeth o amrywiaeth cefndiroedd teuluol a hanesion bywydau. Mae'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau meithrin a derbyn yn astudio pwnc am deuluoedd a phlentyndod cynnar fydd yn cynnwys gofyn am luniau o'r plant yn fabanod ac yn cynnwys trafodaethau am eu hanes. Mae potensial i hyn fod yn gyfle cadarnhaol i ystyried materion amrywiaeth a chydraddoldeb ond o'i reoli'n wael gall arwain at brofiadau poenus i blant nad yw eu bywyd teuluol neu eu cefndir yn cyfateb i'r fersiwn ddelfrydol sy'n cael ei chyflwyno.

"Amser siart achau Blwyddyn 2, fe anfonon nhw siart achau gwag adref yr oedd rhaid i'm merch ei lenwi. Y pennawd arno oedd Mam a Dad - a minnau'n rhiant sengl sy'n mabwysiadu!"

"Yn y dosbarth derbyn roedd yr athro'n mynnu gofyn am luniau babanod er i mi ddweud wrtho ar ddechrau'r flwyddyn nad oedd gennym luniau o'r fath. Wna'i fyth anghofio fy merch yn dod adref yn llefain ac yn dweud fod rhywun yn caru pob un o'r babanod ar y wal. Cafodd y lluniau eu gadael ar y wal am 6 wythnos hyd yn oed ar ôl i mi fynd i mewn i ddweud hyn wrthyn nhw. Yr ymateb oedd "bydd rhaid iddi ddod i arfer â hyn.""

Mae'n faes lle y bydd ysgol neu athro dosbarth sensitif yn sicrhau fod amrywiaeth yn rhan o'r pecyn ac nad yw 'norm' tybiedig ar gyfer strwythur teuluol yn cael ei osod ar y plant.

"Arfer da: Paratôdd yr ysgol wers ar amrywiaeth teuluoedd a natur y broses fabwysiadu - wedi'i gyflwyno gan athro oedd â phlant wedi'u mabwysiadu. Y canlyniad - mae pob un o'r plant yn honni eu bod wedi eu mabwysiadu! Mae'n cŵl!"

"Y prosiect cyntaf yn y dosbarth derbyn a'r dosbarth meithrin oedd 'popeth amdana' i'. Fe ges i sgwrs gyflym gyda'r athrawon i esbonio efallai na fyddai fy mhlentyn yn rhoi atebion confensiynol, ac roedden nhw'n hapus i mi ddefnyddio'r prosiect i'w helpu i siarad am fabwysiadu. Roedd yr athrawon yn llawn cydymdeimlad ac yn gofyn cwestiynau gwybodus."

ARGYMHELLIAD 8 - Y dylai arolygon ysgolion gynnwys ystyried y ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi eu mabwysiadu mewn ysgolion.

Cefnogaeth Teuluoedd

Mae'r adran hon yn trafod y ddarpariaeth a ddarperir i blant sydd wedi eu mabwysiadu a rhai nad ydynt ac mae'n cyflwyno rhai materion anodd i ddarparwyr gwasanaethau ac i ganllawiau ymarfer. Cydnabyddir y bydd y niferoedd sydd angen cymorth mabwysiadu drwy'r ddarpariaeth Cymorth Teulu yn fach, ond mae'r rhain yr un mor berthnasol ac arwyddocaol.

Anghenion iechyd meddwl

Mae achosion o blant plant mabwysiedig sydd ag anghenion iechyd meddwl, yn debyg i blant sy'n derbyn gofal, yn debygol o fod yn uwch na'r cyfartaledd. Mae amrywiaeth o broblemau ymddygiad wedi cael eu nodi yn cynnwys anhwylderau ymddygiad ac anawsterau ymddygiad eraill, problemau emosiynol ac anawsterau addysgol (Sempick, et al 2008). Mae'n debygol fod i'r anawsterau hyn sylfeini niwrofiolegol (Glaser, 2000; De Bellis, 2005) a'u bod yn gysylltiedig â gofalu anghyson, esgeulustod, camdriniaeth all fod yn drawmatig gyda phroblemau ymlyniad o ganlyniad i hynny (Dozier, 2001; Howe, 2006).

Mae'r ddau arolwg yn amlygu bod mynediad i wasanaethau therapiwtig arbenigol yn gymorth hanfodol y gall rhai sy'n cael eu mabwysiadu fod ei angen ar wahanol adegau yn ystod eu bywyd; fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth bresennol yn gyfyng iawn. Mae llawer o'r cymorth arbenigol hwn yn cael ei ddarparu gan y sector annibynnol a dim ond mewn rhai ardaloedd yng Nghymru y mae hwn ar gael. Dywedodd bron 34% o deuluoedd a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi defnyddio o leiaf un gwasanaeth therapiwtig ar gyfer eu plant (cyfanswm o 23 ar draws Cymru); y cyfeiriad mwyaf cyffredin oedd drwy'r gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Gwasanaethau CAMH

Roedd effaith derbyn gwasanaeth gan y tîm CAMHS ym mhrofiad rhieni sy'n mabwysiadu yn amrywio o ardal i ardal. Rhai profiadau cadarnhaol

> *"Mae CAMHS yn hygyrch iawn ond dydyn nhw ddim yn derbyn digon o adnoddau."*
>
> *"Fe gawson ni ddwy sesiwn CAMHS oedd yn gymorth mawr ac mae gennym ddrws agored yn awr."*

A rhai yn llai cadarnhaol;

> *"Cafodd ein merch ei chyfeirio at CAMHS rai misoedd ar ôl y lleoliad, oherwydd yr anawsterau yr oeddem yn eu profi gydag ymddygiadau parhaus yr oedd hi'n eu harddangos. Ond dim ond un waith y cafodd fy merch ei gweld gan y gweithiwr CAMHS - fe es i bob un o'r apwyntiadau eraill ar fy mhen fy hun. Roedd y sesiynau'n canolbwyntio ar fy nheimladau i ac ar fy nisgwyliadau parthed mabwysiadu. Roeddwn i'n teimlo mai fi oedd yr un oedd wedi cael ei chyfeirio. Rhoddwyd rhai awgrymiadau sylfaenol am rianta ond nid oedd rhyw lawer o ymwybyddiaeth am realiti bywyd bob dydd gyda phlentyn wedi'i drawmateiddio'n ddifrifol, y straen anhygoel yr oedd y teulu cyfan yn byw ynddo (yn cynnwys y plant biolegol)."*
>
> *"Fe gawsom ddwy sesiwn gyda CAMHS pan oedd fy mab yn 4 oed gan ei fod wedi 'cau i lawr' yn yr ysgol i'r fath raddau nes bod yr ysgol yn credu fod ganddo anghenion arbennig... fy mab oedd yr achos gwaethaf yr oedden nhw wedi'i weld erioed! Roedd yn ofnus dros ben o'r ysgol, a'r pryder o gael ei adael ... Fe siaradon ni â CAMHS ddwywaith - yr ail dro fe wnaethon nhw ein rhyddhau a dweud nad oedd eu cylch gwaith nhw'n un addysgiadol!"*

Cafodd yr angen i gwrdd â meini prawf er mwyn bod yn gymwys i gael gwasanaeth gan CAMHS, a'r amser yr oedd yn rhaid i deuluoedd aros i gael gwasanaeth, eu hamlygu fel anawsterau gan deuluoedd a gan weithwyr cymdeithasol. Mae darlun am un ymatebydd sy'n dweud ei fod wedi cael gwybod y byddai angen aros pum mlynedd cyn gwneud cais am wasanaeth yn amlygu pwysigrwydd o wella'r ymateb i geisiadau am gymorth:

"Roedden ni'n gwybod, heb gymorth allanol, na fydden ni'n deulu o bump ymhen 5 mlynedd! Fy nyfalbarhad i a'm hymchwil arweiniodd atom yn cael gafael ar gymorth gan yr NCH a wnaeth y gwahaniaeth yn y pen draw. Roedd brwydro i gyfiawnhau hyn ac i gael y cyllid wedi defnyddio egni nad oedd gen i i'w sbario mewn gwirionedd ar y pryd!"

"Mae therapi newydd gychwyn, flwyddyn ar ôl y lleoliad. Cafodd hyn ei addo cyn y lleoliad, ond mewn gwirionedd bu'n rhaid i mi frwydro iddo gael ei gyllido."

"Ar ôl misoedd o wthio ac aros, mynnodd ein cadeirydd annibynnol fod awdurdod lleol y plant yn rhoi asesiad i ni a chymorth parhaus gan CAMHS."

"Yr unig beth mae fy ngŵr a minnau am ei weld yw bod fy merch yn cael mynediad i therapi sydd ei angen arni, bod hynny'n therapi ymlyniad neu'n CBT. Teimlwn ein bod wedi bod yn brwydro'n barhaus dros y pum mlynedd diwethaf iddi gael ei gweld gan arbenigwr ac iddi gael y cymorth sydd ei angen arni hi"

"'Y prif rwystr yw ein bod wedi cael ein gwthio rhwng un lle a'r llall - pobl yn trosglwyddo eich achos at bobl eraill, neb yn bod yn atebol neu'n gyfrifol."

Lle mae therapi wedi cael ei drefnu cyn y mabwysiadu a phlant yn symud i awdurdod lleol newydd o ganlyniad i'r mabwysiadu, yn aml mae anhawster i gael ymrwymiad i barhau'r therapi ar ôl y mabwysiadu ac mewn nifer o achosion mae hyn yn golygu bod y gorchymyn mabwysiadu'n cael ei oedi. Mewn rhai achosion mae hyn yn ymwneud â'r blaenoriaethu gwahanol gyda phlant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig ac mewn achosion eraill mae'n ymwneud ag argaeledd gwasanaethau ym mhob ardal ac ar arbenigedd a chylch gwaith staff CAMHS.

Mae pryder allweddol am ddilyniant a chysondeb mewn darpariaeth gwasanaethau a chymorth pan fydd plentyn/ plant yn symud o fod yn gyfrifoldeb y system gofal cyhoeddus i pan gaiff y gorchymyn mabwysiadu ei wneud. Un canlyniad o'r ddeddfwriaeth gyfredol yw unwaith y mae gorchymyn mabwysiadu'n cael ei wneud mae unrhyw adnoddau a gwasanaethau a ddarparwyd cyn hynny'n debyg o gael eu hatal. Yr effaith mae hyn yn ei chael ar orchmynion mabwysiadu yw eu gohirio, gan fod teuluoedd yn pryderu am y diffyg cymorth priodol i'w plant wrth gan fod y frwydr i sicrhau cydnabyddiaeth o'u hanghenion, heb sôn am gael unrhyw fewnbwn, yn aml yn un sy'n anodd ei hennill yn y lle cyntaf.

ARGYMHELLIAD 9 – Y dylai plant sydd wedi eu mabwysiadu gael yr un mynediad i CAHMS â phlant sy'n derbyn gofal gan fod eu hanghenion yn gysylltiedig â'i gilydd.

Ymyrraeth therapiwtig annibynnol

Mae llawer o unigolion, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chwmnïau preifat sy'n darparu cymorth arbenigol ar faterion ymlyniad. Mae rhai o'r darparwyr hyn yn cael eu rheoleiddio fel therapyddion tra bo eraill yn hysbysebu eu hunain fel mentoriaid rhieni. Mae'r arolwg yn nodi profiadau mwy cadarnhaol y gwasanaethau therapiwtig annibynnol na'u profiadau o CAMHS, ond roedd y costau ariannol ynghlwm yn cael eu gweld fel rhwystr mawr.

"Pob teulu yn Family Futures, yn cael eu cyllido'n anfoddog gan y gwasanaethau cymdeithasol - mae plant yn dal i gael eu maethu ond rydym ni'n aros i'w mabwysiadu. Mae'n costio miloedd lawer o bunnoedd ond mae'n bendant yn werth yr arian. Therapi'n gyfredol, ond eisoes gwelliant enfawr i'r plant ac mae'n dealltwriaeth ni wedi gwella, felly'n gallu ymdopi'n well."

"Wedi derbyn cymorth gan Action for Children, gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, yn para 5 - 6 mis. Roedd yn gymorth mawr i mi, ond dwi'n teimlo y dylid fod wedi ei barhau, ond yn aros am therachwarae/ therapi chwarae."

ARGYMHELLIAD 10 – Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trefnu cynhadledd i ddod â'r holl weithwyr proffesiynol at ei gilydd sy'n gweithio o fewn gwaith therapiwtig perthynol i ddarparu cefnogaeth ar barhauster [staff CAMHS a Gweithwyr Cymdeithasol o dimoedd maethu a mabwysiadu]. Nod y gynhadledd fyddai codi ymwybyddiaeth am batrymau anghenion yn ogystal ag am anghenion penodol y boblogaeth pobl ifanc sy'n derbyn gofal ac wedi eu mabwysiadu, i amlygu ymchwil berthnasol a diweddar o'u hanghenion therapiwtig a'u triniaethau effeithiol er mwyn datblygu gweithdrefnau yng Nghymru i wella ymatebion cefnogi mabwysiadu aml-asiantaeth.

ARGYMHELLIAD 11 – Y dylid datblygu prosiect arbenigol yng Nghymru, yn debyg i Family Futures yn Lloegr, fyddai'n dwyn ynghyd arbenigedd CAMHS, therapyddion annibynnol, gweithwyr cymdeithasol ac addysgwyr i ddarparu gwasanaeth arbenigol i blant â phroblemau difrifol yn codi o ymlyniad gwael a thrawma ac esgeulustod cynnar.

Yr angen am gymorth mabwysiadu parhaus

Bu tybiaeth yn y gorffennol y byddai'r angen mwyaf am gymorth ar gyfer teuluoedd sy'n mabwysiadu yn digwydd yn ystod y cyflwyniad a'r cyfnod 'setlo i lawr' ac ar ôl y flwyddyn neu ddwy gyntaf y byddai'r plant mewn gwirionedd yn 'dal i fyny' gyda'u grŵp cyfoedion o blant sydd heb eu mabwysiadu. Ceir tystiolaeth o hyn yn y parodrwydd i ddarparu peth cymorth ariannol cychwynnol i deuluoedd ac i gynnig aelodaeth o Adoption UK am y flwyddyn gyntaf ar ôl y mabwysiadu.

Fodd bynnag, gwyddom o'r ymatebion i'r ddau arolwg ac o gyfeiriadau at linellau cymorth Adoption UK y bydd llawer o deuluoedd yn brwydro i ymdopi pan fydd eu plant yn cyrraedd glasoed a thu hwnt.

RECOMMENDATION 12 – that resources and support services are developed with the expectation that some adopted children and their families will need life-long support and therapy from placement through to adulthood.

Casgliadau

Er bod cymorth mabwysiadu wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n hymchwil yn dangos fod nifer sylweddol o deuluoedd sy'n mabwysiadu yng Nghymru yn dal i frwydro i ymdopi gyda galwadau ail-riantu plant sydd wedi dioddef trawma a cholled cynnar. Byddai'r argymhellion canlynol, o'u rhoi ar waith, yn gwella'r gefnogaeth y mae'r teuluoedd hyn yn eu derbyn a chredwn y byddent yn lleihau'r achosion o fabwysiadu'n chwalu sy'n cael canlyniadau mor ddinistriol ar y plentyn, y rhieni a phawb sy'n eu caru ac sy'n gweithio gyda nhw.

Cyfeiriadau

Biehal, N., Ellis, S., Baker, C. and Sinclair, I.(2009) 'Characteristics, Outcomes and Meanings of Three Types of Placement – Adoption by Strangers, Adoption by Carers and Long-term Foster Care', Prifysgol Efrog: DCSF-RBX-09-11.

De Bellis, M. (2005) 'The Psychobiology of Neglect.' *Child Maltreatment* (Cyf 10, Rhif 2,) 150-172.

Dozier, M., Stovall K. C., Arbus, K. E. and Bates B. (2001) 'Attachment for infants in foster care: The role of the caregiver state of mind.' *Child Development*, 72.

Glaser, D. (2000) 'Child abuse, neglect and the brain – a review.' *Journal of Child Psychology and Psychiatry* 41, 97-116.

Howe, D. (2006) 'Developmental Attachment Psychotherapy with Foster and Adopted Children.' *Child and Adolescent Mental Health.* 11(3): 128-134.

Ivaldi (2000), Surveying adoption: A comprehensive analysis of local authority adoptions 1998/1999 - England (BAAF, 2000); yn seiliedig ar ystadegau o Children Looked After by local authorities; year ending 31 March 1999 Lloegr (2000).

Randal, J. (2009) 'Towards a better understanding of the needs of children currently adopted from care. An analysis of placements 2003-2005'. *Adoption and Fostering*, cyfrol 33, rhif 1 tud.44-55.

Rushton and Dance (2004) 'The outcomes of late permanent placements' *Adoption and Fostering Journal*, Cyf 28, Rhyd 1, Gwanwyn 2004, tud 49-58.

Selwyn, J., Sturgess, W., Quinton, D. and Baxter, C. (2006) *Costs and Outcomes in Non-infant Adoptions,* Llundain: BAAF.

Sempik, J., Ward, H. and Darker, I. (2008) 'Emotional and Behavioral Difficulties of Children and Young People at Entry into Care.' *Clinical Child Psychology and Psychiatry* 13 (2) 221-233.

Geirfa

ASSA = Cynghorydd Gwasanaethau Cefnogi Mabwysiadu

FAD = Anhwylder Alcohol y Ffoetws

NCH = gelwir bellach yn Weithredu dros Blant

SENCO = Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig